# COFNODION Y CYFARFOD

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

# Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

Dydd Mawrth 27 Ionawr 2026 am 1.30pm
Microsoft Teams

## Yn bresennol

### Aelodau

- Claire Bevan (Cadeirydd)
- Chris Knight
- Sian Richards

### Archwilio Mewnol

- Elan Parry, TIAA

### Archwilio Allanol

- Jeremy Saunders, Archwilio Cymru

### Uwch Dîm Arwain

- Rhian Bowen-Davies - Comisiynydd
- Kelly Davies – Prif Swyddog Gweithredu
- Rachel Bowen – Cyfarwyddwr Polisi (eitemau 8-13 ar yr agenda)
- Nia Halton – Pennaeth Cyllid (eitemau 1-7 ar yr agenda)
- Ruth Thomas – Uwch Gynorthwyydd Gweithredol (Ysgrifenyddiaeth)

### Ymddiheuriadau

- David Powell, (Aelod o ARAC)
- Steen Gourlay, Archwilio Mewnol

## I’w cwblhau / Materion yn Codi

| Dyddiad | Manylion | Enw | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|---|---|
| 24 Gorffennaf 2025 | Rhannu copi o adroddiad Archwilio Cymru ar ofal heb ei drefnu. | Archwilio Cymru | Pan gyhoeddir yr adroddiad |
| 24 Gorffennaf 2025 | Rhannu rhagor o wybodaeth/gwersi a ddysgwyd yn dilyn ymgais i gyflawni ymosodiad seibr ar system TG Comisiynydd arall. | TIAA | Cyfarfod ARAC ym mis Ebrill |
| 27 Ionawr 2026 | Cofnodi effaith gweithgaredd y rhaglen waith mewn diweddariadau ar y Rhaglen waith yn y dyfodol. | Cyfarwyddwr Polisi | Cyfarfod ARAC ym mis Ebrill |

## Eitem 1 ar yr Agenda: Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod ar-lein a diolchodd i’r Uwch Dîm Arwain (SLT) am baratoi’r papurau.

### i) Y Gofrestr Buddiannau

Dim i’w nodi.

### ii) Gweithredoedd Tendr Sengl i’w Datgan

Dim i’w nodi.

### iii) Cyngor a ddarparwyd i’r Comisiynydd neu ei staff ers y cyfarfod diwethaf

Cadarnhaodd y Comisiynydd nad oedd cyngor wedi’i ddarparu ers y cyfarfod diwethaf.

## Eitem 2 ar yr Agenda: Adolygiad o’r cofnodion a materion yn codi o’r cyfarfod diwethaf ar 21 Hydref 2025 (Papur 2)

Cadarnhawyd cofnodion fel cofnod cywir o’r cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2025.

### Diweddariad ar Faterion yn Codi

| Dyddiad | Manylion | Enw | Diweddariad |
|---|---|---|---|
| 24 Gorffennaf 2025 | Rhannu rhagor o wybodaeth / gwersi a ddysgwyd yn dilyn | TIAA | Elan Parry, TIAA i drafod y mater â Steen Gourlay a rhannu y tu allan i’r cyfarfod. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ymgais i gyflawni ymosodiad seibr ar seilwaith TG Comisiynydd arall. | | |
| 24 Gorffennaf 2025 | Rhannu copi o adroddiad Archwilio Cymru ar ofal heb ei drefnu. | Archwilio Cymru | Aros am y dyddiad cyhoeddi. |
| 21 Hydref 2025 | Rhannu dogfen Mapio Sicrwydd. | Prif Swyddog Gweithredu | Cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredu fod y ddogfen wedi'i rhannu ac y byddai'n cael ei chadw fel ffynhonnell gyfeirio fyw. |
| 21 Hydref 2025 | Cynnwys papur eglurhaol ar gyfer taenlen y Cynllun Gwaith. | Cyfarwyddwr Polisi | Cwblhawyd y gwaith. |

### Diweddariadau ychwanegol a ddarparwyd:

- Cadarnhaodd TIAA nad oedd dim diweddariadau arwyddocaol i'w rhannu ar y Porth Digidol newydd.
- Cafwyd Cyngor cyfreithiol ar y Ddeddf Caffael newydd.
- Mae archwiliad mewnol o gaffael wedi'i drefnu ar gyfer dechrau Chwefror.

Llongyfarchwyd CPHC ar yr adroddiad ar Oedraniaeth Ddigidol a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Nododd y Pwyllgor y byddai arolwg pobl yn cael ei gynnal ym mis Mawrth 2026, gan ddilyn cylch 18 mis.

Dywedodd y Comisiynydd fod cyfarfodydd 1-1 wedi'u cwblhau â'r holl staff cyn y Nadolig, ac y bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal yn flynyddol i helpu i gasglu barn y staff ac i gynllunio'r gweithlu. Roedd y gwaith ymgysylltu hwn yn gyfle i staff rannu eu profiadau o weithio i'r sefydliad. Roedd yr adborth wedi bod yn gadarnhaol a rhannodd staff amryw o awgrymiadau ar gyfer gwella.

## Eitem 3 ar yr Agenda 3: Archwilio Mewnol – Adroddiad Diweddaru SICA

Cyflwynodd Elan Parry Bapur 3, a hysbyswyd ARAC er nad oedd dim adroddiadau terfynol wedi'u cyhoeddi ers y cyfarfod diwethaf, a bod y Cynllun Blynyddol ar amser fel y dangosir yn Atodiad A.

Nodwyd fod yr archwiliad Rheolaethau Ariannol Allweddol ar waith, gyda disgwyl Monitro Caffael a Chontractau ddechrau mis Chwefror. Disgwylir y bydd y ddau adroddiad, ynghyd â'r adroddiad blynyddol, yn barod erbyn cyfarfod mis Ebrill. Cadarnhaodd Archwilio Mewnol fod yr archwiliadau rheoli risg a llesiant/absenoldeb staff a gwblhawyd yn gynharach yn y flwyddyn wedi rhoi sicrwydd sylweddol, gyda'r olaf yn cynnwys arsylwadau defnyddiol yn hytrach nag argymhellion ffurfiol.

Trafododd y Pwyllgor y nodyn cynghori Iechyd a Diogelwch sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad B. Eglurodd TIAA er bod adolygiadau Iechyd a Diogelwch arbenigol yn gallu cynnwys rhagor o wybodaeth am gydymffurfiaeth reoleiddiol, dylid bod yn gymesur o gofio maint y sefydliad.

Hysbysodd y Prif Swyddog Gweithredu'r Pwyllgor fod polisïau trylwyr ar waith ar gyfer gweithio gartref ac yn y swyddfa, ynghyd â threfniadau clir i staff gael cymorth a chyngor, os oedd angen.

Roedd y Pwyllgor yn cydnabod y cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Blynyddol archwilio mewnol ac roedd yn edrych ymlaen at gael yr adroddiadau sy'n weddill.

Diolchodd y Cadeirydd i TIAA am y diweddariad.

## Eitem 4 ar yr Agenda: Diweddariad Archwilio Cymru

Cyflwynodd Jeremy Saunders Bapur 4 i'r Pwyllgor a oedd yn cynnwys diweddariad ar y broses recriwtio ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol Cymru nesaf.

Trafodwyd cyfres ddiweddar yr Archwilydd Cyffredinol o bodlediadau ar gyflwr presennol y sector cyhoeddus yng Nghymru. Roedd adborth y Comisiynydd ar y gyfres yn bositif a nododd y cysylltiad rhwng y pynciau a blaenoriaethau'r Comisiynydd, yn enwedig o ran datblygiadau digidol gyda phwyslais ar yr unigolyn.

Trafododd y Pwyllgor y cynnydd o 77% mewn cwynion ac achosion o chwythu'r chwiban i Archwilio Cymru.

Tynnodd Siân Richards sylw at adolygiad arfaethedig Archwilio Cymru o drawsnewid digidol yn y GIG, a'r cysylltiad â gwaith CPHC ar allgau digidol ac oedraniaeth.

Nododd y Pwyllgor adroddiadau arfaethedig Archwilio Cymru ar adfer cydbwysedd mewn gofal, gofal brys ac argyfwng, a gofal wedi'i gynllunio.

Diolchodd y Cadeirydd i Archwilio Cymru am y diweddariad.

## Eitem 5 ar yr Agenda:  Adroddiad Cyllid

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid sefyllfa ariannol y sefydliad fel yr oedd ym mis Rhagfyr 2025:

- Cadarnhawyd amrywiant o £28,000 i'r grant a ddyfarnwyd ar gyfer 2025/26 gan Lywodraeth Cymru i dalu costau yswiriant gwladol a dyfarniadau cyflog.
- O ganlyniad i reoli darbodus ar y gyllideb gyda golwg ar y diffyg posibl hwn, roedd CPHC wedi datgan tanwariant o £30,000 wrth Lywodraeth Cymru.
- Roedd gweddill cyllideb y rhaglen waith yn awr wedi'i dyrannu'n llawn.

Croesawodd y Pwyllgor yr wybodaeth monitro ychwanegol, sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad C.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid fod SLT yn ystyried y cydbwysedd optimaidd rhwng costau staff, costau rhaglenni, a gweithgarwch ymgysylltu wrth benderfynu ar gyllidebau'r blynyddoedd i ddod, gan sicrhau cynaliadwyedd a'r gallu i gyflawni.

Mewn ymateb i ymholiad gan Chris Knight, y Pennaeth Cyllid, cytunwyd i gynnwys mantolen yn adroddiadau'r dyfodol. Mae monitro a rhagolygon llif arian wedi'u cryfhau i roi sylw i fater a godwyd yn archwiliad allanol y llynedd.

Sicrhawyd y Pwyllgor gan y Pennaeth Cyllid fod yr holl waith a gomisiynwyd yn allanol yn awr wedi'i gontractio ac nad oedd dim pryderon o ran defnyddio cyllideb y rhaglen waith sy'n weddill.

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a'r risgiau cysylltiedig a amlygwyd.
Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Cyllid am y sicrwydd a roddwyd a chroesawyd yr ychwanegiadau newydd at yr adroddiad.

## Eitem 6 ar yr Agenda: Treuliau'r Comisiynydd

Nododd y Pwyllgor yr eitemau a restrwyd ar y Gofrestr Treuliau.

## Eitem 7 ar yr Agenda: Y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch

Nododd y Pwyllgor yr eitemau a restrwyd ar y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch. Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Cyllid am y diweddariadau. (Gadawodd y Pennaeth Cyllid y cyfarfod yn dilyn yr eitem hon ar yr agenda).

## Eitem 8 ar yr Agenda: Y Gofrestr Risg Strategol

### i) Y Gofrestr Risg

### ii) Y papur cwmpasu risg

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu'r Gofrestr Risg Strategol ar gyfer Chwarter 3, gan nodi fod y proffil risg sefydliadol yn sefydlog at y cyfan.

Roedd Risg 7, sy'n ymwneud â'r chyflawni'r cynllun strategol a'r rhaglen waith, yn aros ar yr un sgôr, oherwydd dibyniaethau cymorth allanol; fodd bynnag, yn dilyn cytundeb ar yr holl gontractau allanol, disgwylir i'r risg hon leihau yng nghyfarfod Chwefror o'r SLT.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredu y byddai ymarferiad Cynllunio Dilyniant Busnes wedi'i seilio ar senarios sy'n cael ei hwyluso'n allanol yn cael ei gynnal ym mis Mawrth, ac y byddai'n canolbwyntio ar ddigwyddiadau gweithredol nad ydynt yn ymwneud â materion seibr.

Trafododd y Pwyllgor risgiau gweithredol sy'n gysylltiedig â mabwysiadu a defnyddio AI a nodwyd er nad oedd y sefydliad wedi prynu trwyddedau Copilot, roedd staff yn gwneud defnydd da o'r fersiwn am ddim. Sicrhaodd y Prif Swyddog Gweithredu'r Pwyllgor fod paramedrau pendant wedi'u gosod fel rhan o bolisi TGCh a Defnydd Derbyniol y sefydliad, a bod polisi AI pwrpasol yn cael ei ddatblygu. Nododd y Pwyllgor fod nifer o staff wedi mynychu hyfforddiant AI yn ddiweddar dan arweiniad Prifysgol Caerdydd a'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol.

Roedd Siân Richards yn argymell adolygiad o AI a gwerthusiad parhaus o'r opsiwn i dalu am Copilot ar gyfer rolau penodol lle gellir cyfiawnhau hynny.

Yn ystod trafodaeth yn ymwneud â Risg 9 a chysylltiadau a dylanwad gwleidyddol y Comisiynydd, cafwyd cydnabyddiaeth gan y Cyfarwyddwr Polisi fod cyd-destun etholiad y Senedd yn newid ynghyd â throsiant gweinidogion a sicrhawyd y Pwyllgor fod y sefyllfa'n cael ei monitro'n ofalus. Cafodd y Pwyllgor sicrwydd y Comisiynydd fod gwaith ymgysylltu'n parhau â phob un o bleidiau'r Senedd, a bod e-bost wedi'i anfon yn ddiweddar at arweinyddion y pleidiau ac unigolion allweddol yn nodi blaenoriaethau ac yn rhoi trosolwg o adroddiadau 2025. Cadarnhaodd y Comisiynydd hefyd fod pecynnau ar gyfer aelodau newydd y Senedd yn cael eu paratoi i barhau â'r ymgysylltu ar ôl yr etholiad.

Yn dilyn cwestiwn gan y Cadeirydd, cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredu fod archwilio mewnol wedi cynnal archwiliad manwl i'r ddwy risg ar y gofrestr a phwysleisiodd fod rheoli risgiau wedi'i ymgorffori yn y sefydliad ar ffurf cyfarfodydd a sgyrsiau o ddydd i ddydd.

Cadarnhaodd y Comisiynydd fod Comisiynwyr Cymru'n cwrdd ddwywaith y flwyddyn ac y byddai'n gofyn am ychwanegu eitem sefydlog 'Risgiau sy'n dod i'r Amlwg' ar agendau'r dyfodol.

Croesawodd y Pwyllgor y sicrwydd a geir yn yr adroddiad, a diolchodd y Cadeirydd y Prif Swyddog Gweithredu am y papurau.

## Eitem 9 ar yr Agenda: Diweddariad ar y cynllun gwaith a thaenlen RAG

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Polisi ddiweddariad ar y Cynllun Gwaith, gan nodi:

- Roedd wedi bod yn Chwarter eithriadol o brysur gyda chyhoeddi sawl adroddiad pwysig
- Cafodd Canllaw Cynllunio Gofal y Dyfodol ei lansio ar 26 Ionawr 2026 ac roedd yr adborth gan unigolion a sefydliadau yn bositif.
- Ni fydd y gweminar posibl ar bobl hŷn, gwaith a sgiliau'n cael ei gynhyrchu oherwydd anawsterau ag amserlen partneriaid, ond mae cysylltiadau'n parhau â sefydliadau allweddol fel Prime Cymru, timau cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru, a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru.
- Mae'r arolwg gofal cymdeithasol yn awr yn fyw a chafwyd 220 o ymatebion hyd yma.
- Mae oedi gyda'r gwaith ar y modiwl hyfforddiant ar wahaniaethu ar sail oedran oherwydd absenoldeb ymhlith staff y Brifysgol Agored, sy'n llunio'r modiwl. Disgwylir y bydd y modiwl wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mai, a bwriedir ei lansio yn Chwarter 1 2026/27.
- Bydd gwaith Cwynion ac Eiriolaeth yn cael ei wneud drwy adolygiad Adran 5, gyda chyfraniad gan arbenigwyr o Brifysgol Caerdydd.

Croesawodd y Pwyllgor amrywiaeth y gwaith sy'n cael ei wneud.

Awgrymodd Siân Richards gynnwys adran ar 'effaith / gwerth' gweithgarwch y rhaglen waith. Croesawodd y Cyfarwyddwr Polisi'r awgrym hwn. Tynnodd y Comisiynydd sylw at gynlluniau i sefydlu proses olrhain argymhellion ar gyfer adroddiadau pwysig i gael gwell sicrwydd o newidiadau a wnaed mewn ymateb i waith CPHC o 2026/27.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Polisi am y diweddariad cynhwysfawr ac am y sicrwydd a gafwyd.

## Eitem 10 ar yr Agenda: Adroddiad Llywodraethiant Chwarterol:

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu uchafbwyntiau'r adroddiadau chwarterol.

### i) Adroddiad Llywodraethiant

Cafwyd un gŵyn yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg a rhoddwyd camau ar waith ar unwaith i gywiro'r sefyllfa. Yn dilyn asesiad cychwynnol, penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg na fyddai angen ymchwiliad llawn. Nododd y Pwyllgor y canlyniad a phwysleisiwyd pwysigrwydd dysgu a gwelliannau rhagweithiol i'r broses, fel y gwelwyd yn yr achos hwn.

### ii) Adroddiad Iechyd Sefydliadol

Roedd un aelod o staff wedi cwblhau cyfnod prawf yn llwyddiannus yn Chwarter 3, gydag un arall i gwblhau eu cyfnod prawf hwythau ddiwedd Chwefror.

Mae defnydd o wyliau blynyddol o fewn y cyfyngau disgwyliedig, gyda chyfathrebu rhagweithiol â rhai â mwy o wyliau heb ei gymryd.

Nododd y Prif Swyddog Gweithredu fod absenoldeb oherwydd salwch yn uwch yn Chwarter 3 nag yn y chwarteri blaenorol, yn bennaf am fod salwch tymhorol tymor byr wedi effeithio ar y tîm. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredu fod polisi absenoldeb oherwydd salwch y sefydliad yn cynnwys trothwyon uwchgyfeirio yn achos absenoldeb mynych, ac na chafodd ei weithredu yn Chwarter 3.

Cafwyd crynodeb gan y Comisiynydd o themâu'r cyfarfodydd un i un â'r holl staff cyn gwyliau'r

Nadolig. Dywedodd staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda, eu bod yn cael eu clywed, a'u grymuso a'u bod yn gwerthfawrogi polisïau hyblyg a phrosesau llywodraethiant cryf.

Roedd cyfarfodydd grŵp wyneb yn wyneb wedi'u cynnal yn ystod yr wythnosau diwethaf, ac roedd Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd Tîm sefydliad cyfan wedi'i gynnal ar 11 Rhagfyr gydag un arall wedi'i drefnu ar gyfer 2 Chwefror.

### iii) Adroddiad Cyfathrebu

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu'r adroddiad, a ysgrifennwyd gan y Pennaeth Cyfathrebu, fel trosolwg o Chwarter 3.

Nododd y Pwyllgor lefelau uchel y gweithgarwch yn ystod y chwarter gyda chyfathrebu rhagweithiol a sylw yn y cyfryngau yn sgil yr adroddiadau pwysig. Cafodd yr ymateb i Fodiwl 2 Ymchwiliad COVID-19 rywfaint o sylw a disgwylir mwy o sylw'n ddiweddarach yn y flwyddyn pan gaiff Modiwl 6 (sy'n ymdrin â chartrefi gofal) ei gyhoeddi.

Awgrymodd Siân Richards y byddai cysylltu gweithgarwch cyfathrebu â dealltwriaeth rhanddeiliaid o flaenoriaethau CPHC yn gwella'r adroddiad ac yn cyfrannu at liniaru risgiau strategol.

### iv) Cerdyn Sgorio Cytbwys

Cynhaliwyd ymgyrch hysbysebu yn y chwarter diwethaf ac yn y chwarter hwn, gan gynhyrchu'r lefel uchaf o ymholiadau cyngor a chymorth misol hyd yma. Roedd ymgyrch codi ymwybyddiaeth â chyrff proffesiynol hefyd ar waith, o dan Arweiniad y Pennaeth Cyngor a Chymorth.

Croesawodd y Pwyllgor y data ansoddol mwy manwl sy'n cael ei ddarparu i SLT ar themâu ymchwiliadau.

Cadarnhawyd y byddai'r gyllideb dysgu a datblygu a ragwelir yn cael ei defnyddio'n llawn yn 2025/26.

Nododd y Pwyllgor y Cerdyn Sgorio Cytbwys.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod yr adroddiadau Llywodraethiant Chwarterol yn rhoi sicrwydd cryf yn y meysydd hyn.

## Eitem 11 ar yr Agenda: Adroddiad Gwydnwch Seibr

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad gan y Prif Swyddog Gweithredu ar y gweithgarwch diweddar yn ymwneud â gwydnwch seibr.

Oherwydd y risgiau diogelwch cysylltiedig, ni chadwyd cofnodion o'r eitem hon.

## Eitem 12 ar yr Agenda: Unrhyw Fater Arall

Nid oedd dim eitemau eraill i'w trafod.

## Eitem 13 ar yr Agenda: Adolygiad o'r cyfarfod, gan gynnwys trafodaeth o eitemau'r agenda yn y dyfodol, dyddiau datblygu a chyfarfodydd ffocws

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am y trafodaethau buddiol a diddorol a mynegodd werthfawrogiad o staff CPHC am ansawdd a phrydlondeb papurau'r Pwyllgor.

Cytunodd yr aelodau eu bod yn fodlon â'r papurau ac â'r ymatebion a gafwyd.

**Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf: Cynhelir cyfarfod nesaf ARAC ddydd Mawrth 28 Ebrill 2026 yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro.**